Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | Diweddariad ynghylch Lles, Iechyd a Diogelwch |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 23.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ashleigh Dunn |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Emyr Roberts |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Gwybodaeth** |
| **Argymhelliad:** | Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | Sut y mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i wireddu egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o safbwynt:<br><br>**Ystyried y tymor hir:**<br><br>**Mabwysiadu dull integredig o weithredu:**<br><br>**Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth:**<br><br>**Gweithio mewn modd cydweithredol:**<br><br>**Atal problemau rhag digwydd:**<br><br>Mae Map Ffordd Cyfoeth Naturiol Cymru yn disgrifio sut y mae ein llwyddiant yn dibynnu ar y modd yr ydym yn cydweithio i greu Cymru well. Mae'r map ffordd yn egluro ein gweledigaeth a'r hyn y byddwn yn ei wneud i'w gwireddu. Drwy'r gwaith yr ydym yn ei wneud a'r modd yr ydym yn ei gyflawni, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella lles, iechyd a diogelwch ein staff a'n cwsmeriaid ar draws Cymru. Mae ein gwerthoedd |

| | |
|---|---|
| | yn golygu y byddwn yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd ac y byddwn yn gweithredu i'n cadw ein hunain a chadw pobl eraill yn ddiogel ac yn iach. |

## Mater

1. Diweddariad ynghylch lles, iechyd a diogelwch ar gyfer Bwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cefndir

2. Mae’r papur briffio hwn yn disgrifio’r prif faterion a’r datblygiadau diweddar ynghylch lles, iechyd a diogelwch ac mae’n darparu’r newyddion diweddaraf, y prif ystadegau allweddol a dehongliad yn ogystal â chrynodeb o’r cynnydd a wnaed ynghylch materion penodol.

## Asesiad

**3. Y prif ystadegau ynghylch damweiniau a digwyddiadau fu bron â digwydd ar gyfer 2015-16, fel yr oeddent ar 31 Ionawr 2016, gan gynnwys y ffigurau blwyddyn lawn ar gyfer 2014-15 at ddibenion cymharu.**

| | **Digwyddiadau ers yr adroddiad diwethaf i’r Bwrdd (30 Tachwedd 2015)** | **Blwyddyn 2015-16 hyd yn hyn[1]** | **Blwyddyn lawn 2014-15[1]** |
|---|---|---|---|
| RIDDOR – staff[2] | 2 | 8 | 0 |
| Digwyddiadau a arweiniodd at golli amser – staff | 0 | 7 | 2 |
| Digwyddiadau lle na chollwyd amser – staff | 15 | 72 | 55 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – staff | 54 | 213 | 131 |
| Adolygiadau o ddigwyddiadau difrifol[3] | 1 | 2 | 4 |
| Digwyddiadau – contractwyr | 0 | 4 | 60 |
| Digwyddiadau – y cyhoedd | 1 | 47 | |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – contractwyr | 10 | 67 | 98 |
| Digwyddiadau fu bron â digwydd – y cyhoedd | 8 | 50 | |

[1]Dylid nodi ei bod yn bosibl na fydd modd cymharu’r ffigurau ar gyfer eleni â’r ffigurau ar gyfer y llynedd oherwydd nad adroddwyd yn ddigonol ynghylch digwyddiadau yn 2014-15.
[2]Cafwyd dau ddigwyddiad y mae’n ofynnol adrodd yn eu cylch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995, ers yr adroddiad diwethaf – anaf i goes unigolyn, a arweiniodd at golli dros saith diwrnod o amser (soniwyd am y digwyddiad yn yr adroddiad diwethaf, ond fel digwyddiad a arweiniodd at golli amser yn hytrach na digwyddiad RIDDOR) a thendonitis yn llaw a braich unigolyn ar ôl bod yn defnyddio cyfarpar sgrîn arddangos (afiechyd yn ymwneud â chyfarpar sgrîn arddangos).
[3]Mae rhagor o fanylion i’w gweld yn adran 4(iii).

- Mae digwyddiad RIDDOR yn fath penodol o ddigwyddiad y mae’n ofynnol adrodd yn ei gylch wrth yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dan Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995.
- Digwyddiad a arweiniodd at golli amser yw achos lle mae aelod o staff wedi’i anafu wrth weithio ac, yn dilyn hynny, wedi cael amser i ffwrdd o’r gwaith neu wedi cyflawni dyletswyddau ysgafn o ganlyniad i’w anafiadau (dylid adrodd ynghylch digwyddiad o’r fath dan y Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus os yw’r cyfnod yn fwy na 7 diwrnod). Bydd cyfnod o ‘golli amser’ yn dechrau ar y diwrnod cyntaf ar ôl i’r unigolyn gael ei anafu.
- Digwyddiad lle na chollwyd amser yw achos lle mae aelod o staff wedi’i anafu wrth weithio ond mai dim ond ychydig o gymorth cyntaf yr oedd ei angen arno, ac nad yw felly wedi cael unrhyw amser i ffwrdd o’r gwaith. Mae digwyddiadau lle na chollwyd amser yn cynnwys difrod i gerbydau ac offer Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Digwyddiad fu bron â digwydd yw digwyddiad nas cynlluniwyd/nas rheolwyd nad yw’n achosi anaf, afiechyd neu ddifrod, ond a allai wneud hynny.
- Mae anafiadau i aelodau’r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf â damweiniau beicio mynydd ar ein llwybrau pwrpasol, a phobl

yn llithro, yn baglu neu'n cwympo ar lwybrau cerdded. Caiff llwybrau eu hasesu o ran risg a'u harchwilio fel mater o drefn yn gyson, a chânt eu harchwilio hefyd ar ôl damwain.

- Mae digwyddiadau fu bron â digwydd i aelodau'r cyhoedd yn ymwneud yn bennaf ag achosion pan fo'r cyhoedd yn tresmasu ar safleoedd cynaeafu gweithredol.

**Ystadegau ynghylch absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer 2015/16**

4.. Ar hyn o bryd, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn cyfateb ar gyfartaledd i 3.3 o ddiwrnodau'n cael eu colli am bob gweithiwr, sef 1.97%. Targed Cyfoeth Naturiol Cymru yw sicrhau na chaiff mwy na 7 diwrnod eu colli ar gyfartaledd am bob gweithiwr, sy'n cyfateb i 3.1%.

5. Dyma'r tri phrif reswm dros absenoldeb, a oedd yn cyfrif am 57.9% o'r holl achosion o absenoldeb oherwydd salwch yr adroddwyd yn eu cylch:

| | |
|---|---|
| Problemau gyda'r system anadlu | 28.3% |
| Problemau iechyd meddwl | 18.3% |
| Problemau gyda'r system gyhyrysgerbydol a meinwe gyswllt | 11.3% |

6. Problemau gyda'r system anadlu yw'r prif reswm dros absenoldeb yn ystod y misoedd diwethaf (dyna'r rheswm dros 28.3% o'r absenoldebau yr adroddwyd yn eu cylch) a gallai patrymau tymhorol a ddisgwylir esbonio hynny. Parheir i dynnu sylw arweinwyr a rheolwyr at absenoldeb oherwydd problemau iechyd meddwl, wrth i ni ganolbwyntio ar wella lles yn y sefydliad. Mae'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl wedi bod yn galluogi cyfarwyddiaethau i weld ble mae llawer o broblemau iechyd meddwl yn digwydd, pa gymorth y gellir ei roi, a beth y gellir ei wneud i fynd i'r afael â'r maes hwn sy'n peri pryder mawr.

7. Bu i ni sôn yn flaenorol am lansio Modiwl Absenoldeb MyNRW a fydd yn gwella'r modd yr ydym yn cofnodi absenoldeb oherwydd salwch ac a fydd yn ein helpu i fynd i'r afael â chanfyddiad nad yw rheolwyr llinell yn adrodd yn ddigonol ynghylch absenoldeb oherwydd salwch. Byddwn yn llunio arweiniad ychwanegol i staff ynghylch sut i ddefnyddio'r modiwl absenoldeb, a bydd yr arweiniad hwnnw yn esbonio'r system categoreiddio salwch, yn symleiddio'r system ac yn rhoi sicrwydd y bydd manylion yr absenoldeb yr adroddir yn ei gylch yn cael eu cadw'n gyfrinachol.

**Lles**

8. Rydym wedi cychwyn nifer o fentrau i ategu ein hymrwymiad i sicrhau lles yn Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'r Pwyllgor Lles, Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol wedi datblygu cynllun gweithredu'n awr i fynd i'r afael â straen yn Cyfoeth Naturiol Cymru, yn rhan o'r angen i ni fod yn fwy cydnerth o safbwynt lles ac iechyd. Hyd yn oed o gael cynllun gweithredu, mae llwyth gwaith enfawr a chyfnod arall o ansicrwydd ychwanegol o'n blaen. Felly, mae angen i ni wella'r modd yr ydym yn rheoli'r materion hyn. Lles yw un o'r blaenoriaethau allweddol a nodwyd yn fersiwn ddrafft ein Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Rheoli Pobl. Mae'r cynllun gweithredu ynghlwm yn Atodiad 1 a gofynnir i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd gefnogi camau i'w roi ar waith.
- Diwrnod 'Amser i Siarad' ar 4 Chwefror – diwrnod pan gafodd aelodau o staff eu hannog i sgwrsio am iechyd meddwl er mwyn torri'r tawelwch a dileu'r stigma ynghylch iechyd meddwl. Roedd cardiau 'gair o gyngor' i'w gweld o amgylch y

swyddfeydd, a oedd yn cynnig syniadau i'r staff ynghylch ffyrdd o ddechrau'r sgwrs, a defnyddiwyd Twitter hefyd. Cafodd y fenter hon ymateb da gan y staff a byddwn yn ailadrodd y dull hwn o weithredu drwy gynnal sesiynau eraill yn rheolaidd.

**9. Prif ddatblygiadau**

**i. Mae Karen Balmer** yn ymgymryd â chyfrifoldeb fel pencampwr y Bwrdd ar gyfer Lles Iechyd a Diogelwch a chroesewir y datblygiad hwn.

**ii. Marwolaeth contractwr ym Mhen Parc, Abercynon** – Nid oes unrhyw newyddion pellach ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd. Rydym yn dal i aros am ganlyniad yr adolygiad cyn y cwêst, sydd i'w gynnal ar 8 Mawrth 2016.

**iii. Digwyddiad y mae'n ofynnol adrodd yn ei gylch a oedd yn ymwneud â chontractwr ym Mhenrhyn-coch** – Mae'r contractwr wedi dychwelyd i weithio ar y safle erbyn hyn, a chafodd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wybod am hynny cyn iddo ailddechrau gweithio yno. Mae'r Awdurdod wedi gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru am fanylion cyswllt y contractwr. Rydym yn aros am ganlyniad terfynol ymchwiliad yr Awdurdod.

**iv. Digwyddiad fu bron â digwydd i gontractwr yn Llanfihangel (Michaelston)** – Mae adolygiad o ddigwyddiad difrifol wedi'i gynnal ar ôl i ddarn o bren dorri ffenest flaen un o beiriannau cloddio coesog y fflyd wrth gyflawni gwaith paratoi tir. Aeth y darn o bren i mewn i'r cab gan beryglu diogelwch y sawl a oedd yn trin a thrafod y peiriant. Mae'r canfyddiadau cychwynnol wedi nodi problemau dylunio'n ymwneud â'r modd yr oedd y ffenestr flaen wedi'i gosod ar y peiriant, a'r ail lwybr ar gyfer dianc o'r cab. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn trafod â chwmni cynhyrchu'r peiriant er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

## Argymhellion

10. Dylid nodi'r materion a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.

11. Dylid cefnogi camau i roi'r cynllun gweithredu ynghylch straen ar waith.

## Prif risgiau

12. Caiff risgiau parhaus o safbwynt Lles, Iechyd a Diogelwch eu nodi a'u monitro drwy'r gofrestr risg ar gyfer Lles, Iechyd a Diogelwch. Ni ragwelir unrhyw risgiau ychwanegol.

## Goblygiadau ariannol

13. Ni ragwelir unrhyw oblygiadau ariannol. Mae buddsoddi mewn anghenion dysgu a datblygu ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i gynnwys yn y gyllideb hyfforddiant ar gyfer 15/16 a 16/17.

## Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

14. Amherthnasol – papur briffio yn unig.

**Mynegai i'r Atodiadau**

- Atodiad 1 – Cynllun Gweithredu ynghylch Straen